

# Trem ar hanes yr ysgol Sul yng Nghymru hyd at 1966

*Y mae dyfodol Addysg y genedl, yn ogystal â dyfodol ei chrefydd, yn dibynnu ar yr Ysgol Sul i raddau helaethach nag yr un sefydliad arall.*

O. M. Edwards

Syr O. M. Edwards (1858–1920) biau'r geiriau uchod, a phwrpas y bennod hon yw olrhain twf a datblygiad yr ysgol Sul dros y blynyddoedd. Bydd cyfle hefyd i bwysu a mesur ei dylanwad, gan gadw golwg ar sylwadau'r Cymro o Lanuwchllyn a ddaeth yn Brif Arolygwr addysg Cymru.

Ni ellir dadansoddi cyfraniad yr ysgol Sul ym mywyd Cymru heb yn gyntaf olrhain y digwyddiadau yng ngwead blynyddoedd ei hesgor. Mewn cyfnod o chwyldro a chwalfa y blagurodd yr ysgol Sul. Siglwyd Ewrop gyfan gan gynryfiadau'r Chwyldro Ffrengig yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymledodd y Chwyldro Diwydiannol, newidiwyd y patrwm economaidd yn llwyr, a heidiai'r bobl i'r ardaloedd diwydiannol i chwilio am waith. Mewn cyfnod o newidiadau carlamus, greddf dyn yw chwilio am gwmpawd i lywio'r ffordd ymlaen o'r dryswch. Ac roedd angen rhywbeth fyddai'n sadio, yn rhoi nod ac ar yr un yn pryd yn rhoi gwerth ac urddas ar fywyd unigolion mewn tryblith. Ofer oedd chwilio am ateb gan y llywodraeth ond roedd un noddfa arall lle gallai'r dyn cyffredin droi i chwilio am gymorth, sef yr Eglwys Sefydledig. Er hynny, darlun tywyll a geir o'r eglwys honno ar y pryd: absenoldeb a difaterwch offeiriaid ac esgobion, adeiladau mewn cyflwr trychinebus a'r plwyfi'n cael eu rhedeg o ddydd i ddydd gan guradiaid. Yng Nghymru roedd iaith gynhenid y lliaws yn cael ei hanwybyddu i raddau helaeth.

O fewn sefyllfa lesg a bregus, datblygodd efengyliaeth gyda'r pwyslais ar genhadu, addysgu a gwasanaethu cymdeithas, parchu'r Beibl a chofleidio'r ddiwinyddiaeth a ganolai ar farw aberthol Crist. Yng Nghymru esgorodd efengyliaeth ar glymu Cristnogion â'i gilydd ar draws ffiniau enwadol, a bu dylanwad y 'Cytgord Efengylaidd' yn drwm ar fywyd y wlad yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O groth yr efengyliaeth hon y tarddodd yr ysgol Sul yng Nghymru ac atgyfnerthwyd y mudiad gan y sylw cynyddol a roddwyd i safle a datblygiad y plentyn gan athronwyr ac addysgwyr. Erbyn y ddeunawfed ganrif daeth y plentyn a'i anghenion yn ganolbwynt ymdrechion unigolion a mudiadau fel ei gilydd. O blethu'r elfennau hyn gwelwn y braenaru a fu, a bellach roedd y tir yn barod ar gyfer hau'r had.

Gwyddom fod Archesgob Pabyddol Milan, y Cardinal Carlo Borromeo (1538–84) wedi sefydlu cyfundrefn o ysgolion Sul yn ei archesgobaeth, a honnir bod dros ddeugain mil o blant yn cael eu dysgu ynddynt gan dros dair mil o athrawon. Cyn degawdau olaf y ddeunawfed ganrif ceir sôn am sawl ymgais i sefydlu ysgolion Sul mewn gwahanol ardaloedd yn Lloegr, yn ogystal â Threforys a Chastell-nedd yng Nghymru. Felly, yng Nghymru a Lloegr yr hanes oedd ysgolion Sul unigol yn codi yma a thraw dan ofal offeiriaid, gweinidogion, dyngarwyr a phobl gyffredin, heb unrhyw fudiad na strwythur cenedlaethol i hybu'r gwaith.

## Y datblygiadau yn Lloegr

Y gŵr y cysylltir ei enw â'r ysgolion Sul cynnar yn Lloegr yw Robert Raikes (1735–1811), Caerloyw, perchennog y *Gloucester Journal*. Daeth gŵr o'r enw Thomas Stock (1749–1803) yn brifathro ysgol y gadeirlan yng Nghaerloyw ac yn rheithor Eglwys Ioan Fedyddiwr yn y dref. Roedd Stock eisoes wedi sefydlu ysgol Sul lwyddiannus yn Ashbury, Berkshire. Gyda chymorth ymarferol Stock a brwdfrydedd a chyfalaf Raikes aeth y ddau ati i arloesi yn y ddinas gan ddechrau yn 1780. Bu'r fenter yn llwyddiannus ac yng ngholofn olygyddol ei bapur, ar 3 Tachwedd

1783, disgrifiodd Raikes yr ysgolion. Benthyciwyd ei olygyddol gan bapurau eraill megis y *Manchester Mercury* a'r *Chester Chronicle*, a buan iawn y cododd brwdfrydedd dros sefydlu ysgolion Sul mewn mannau eraill – Lerpwl, Caerfaddon a Chaerdydd yn eu plith.

Yn 1785 defnyddiodd William Fox (1736–1826), Bedyddiwr cefnog o Clapton, swydd Gaerloyw, oedd wedi gwneud ei ffortiwn yn y busnes teilwra dillad, ei gyfoeth i hybu achosion da. Ar ei deithiau gwelodd gyni a thlodi enbyd, yn enwedig ymysg plant ac ieuenctid. Bwriad Fox ar y dechrau oedd sefydlu ysgolion dyddiol ar gynllun yr ysgolion elusennol ond clywodd am waith Raikes, a chyn pen dim ffurfiwyd Cymdeithas yr Ysgolion Sul i hybu a chefnogi'r ysgolion mewn gwahanol siroedd yn Lloegr. Bu cyfraniad y Gymdeithas hon yn allweddol i ysbrydoli'r mudiad yng Nghymru.

Yn 1786 dechreuodd y Dr Edward Williams (1750–1813) ymddiddori yn y maes. Pan oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yng Nghroesoswallt rhwng 1777 ac 1792 sefydlodd ysgolion dyddiol ac ysgolion Sul. A dyma'r cyfeiriad cyntaf at ysgolion Sul yng ngogledd Cymru – yn Nhreffynnon, Dinbych, Machynlleth, y Bala, Caernarfon a Bangor. Ond buan y sylweddolodd Edward Williams nad ysgolion Sul oedd yr ateb, ac felly cyfyngwyd y gwaith i'r ysgolion cylchynol a'u cynnal yn ystod yr wythnos. Am gyfnod, yn ne Cymru bu Morgan John Rhys (1760–1804), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, yn hybu ysgolion Sul ac yn ôl pob tebyg sefydlodd ysgol rad ym mhlwyf Llanfabon rywbryd rhwng 1780 ac 1786.

### **Cyfraniad Thomas Charles**

Gwir bensaer y gyfundrefn oedd Thomas Charles (1755–1814). Gwelodd yntau, fel William Fox o'i flaen, gryn anwybodaeth ymhlith y bobl. Ar ôl profiadau digon cythryblus yn ystod ei guradiaeth yng Ngwlad yr Haf ac wedyn yn Llanymawddwy cefnodd ar Eglwys Loegr a daeth i'r Bala, gan ddechrau addysgu athrawon er mwyn eu hanfon ar gylchdeithiau i gynnal ysgolion cylchynol yn 1785. Yn ddiweddarach y dechreuodd ar ymgyrchoedd yr ysgolion Sul. Roedd pwrpas yr ysgolion Sul yn glir a phendant: 'to teach y<sup>e</sup> children to read their *native* language correctly, and to instruct them in y<sup>e</sup> principles of Christianity and *nothing more*'.

Beth oedd rhagoriaethau'r ysgolion yn y cyfnod cynnar hwn? Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg oedd nod Thomas Charles. Cafodd brofiad o ddysgu'r famiaith i'w blant ei hun a sylwodd pa mor sydyn yr oeddynt yn dysgu. Roedd dysgu'r plentyn i ddarllen yn ei iaith gyntaf yn prysuro'r broses – chwe mis yn hytrach na dwy neu dair blynedd i ddysgu trwy ei ail iaith. Roedd defnyddio'i iaith gyntaf yn cyfleu'r ystyr ac yn cynorthwyo'r unigolyn i ddeall iaith y Beibl a'r pulpud. Yn sylfaenol i hyn i gyd roedd y dyhead i ddangos pa mor bwysig oedd y Gymraeg: 'by teaching Welsh *first*, we prove to them that we are principally concerned about their souls'. A'r ysgol Sul oedd yr unig gyfundrefn addysg uniaith Gymraeg a gawsom fel cenedl. Petai arweinwyr yr ysgol Sul wedi meddwl amdani fel moddion i ddysgu Saesneg, tybed beth fyddai wedi digwydd i'n hiaith a'n diwylliant?

Nodwedd amlwg arall o waith yr ysgolion Sul cynnar oedd eu trefniadaeth. Flwyddyn cyn ei farwolaeth cyhoeddodd Charles lyfryn byr a chryno, *Rheolau i Ffurfiaw a Threfnu yr Ysgolion Sabbothawl*, a ganolbwyntiai ar y dulliau mwyaf effeithiol o drefnu'r ysgolion Sul. Roedd cyfrolau tebyg wedi'u cyhoeddi yn Lloegr yn gynnar yn hanes y mudiad, fel y crybwyllir yn y gyfrol uchod, lle dywedir bod y 'Saeson yn fwy rheolaidd yn agos ym mhob peth na nyri'.

Anodd iawn yw cael prawf pendant o ddechreuadau'r ysgolion Sul, ond gellir crynhoi fel hyn. Yn 1785 daeth Thomas Charles i'r penderfyniad na fyddai ysgolion Sul yn ateb y galw, ac felly aeth ymlaen i adfywio cynllun ysgolion cylchynol Griffith Jones. Yn 1787 mynnodd fod yr athrawon yn dysgu ar ddwy noson waith, ac yn

ohonynt ar y Sul er mwyn y rhai nad oedd yn gallu elwa ar y ddarpariaeth yn ystod yr wythnos. Ysgolion oedd y rhain yn dilyn yr un patrwm â'r ysgolion cylchynol. Yn 1789 daliai i feddwl bod yr ysgolion Sul yn anymarferol oherwydd patrwm daearyddol y wlad. Yn raddol, rhwng 1789 ac 1798, dechreuodd y niferoedd gynyddu a hynny'n bennaf am fod Cymdeithas yr Ysgolion Sul wedi cynnwys Cymru oddi mewn i'w chylch gorchwyl a Charles ei hun bellach yn asiant swyddogol i'r Gymdeithas. Ond nid oes cofnod manwl pa bryd yn union y trodd y llanw. Rhwng 1798 ac 1810 cynyddodd yr ysgolion Sul ar garlam, ac ar yr un pryd edwinodd yr ysgolion cylchynol.

## **Ymlaen i ganol y ganrif**

Nodwedd arbennig yr ysgolion Sul yn y cyfnod hyd at ganol y ganrif oedd eu cyfraniad i addysgu plant a phobl mewn oed i ddysgu darllen y Beibl yn Gymraeg, a rhoi hyfforddiant diwinyddol iddynt yn y catecismau a'r *Geiriadur Ysgrythyrol*. Yn ogystal â hyn cyhoeddwyd nifer go dda o ddeunyddiau ategol, er enghraifft cyfnodolion oedd wedi'u golygu gan arweinwyr yr enwadau, ar gyfer y teulu yn bennaf. Ond byrhoedlog fu hanes nifer ohonynt gan eu bod yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, a'r geiniog yn brin y pryd hwnnw. Ochr yn ochr â'r cyfnodolion paratowyd traethodau crefyddol ar wahanol bynciau, megis llyfrau'r Beibl, a straeon â gwersi moesol ynddynt. Cyhoeddwyd esboniadau a chyfansoddwyd emynau i'w canu yn yr ysgolion Sul, ac o dipyn i beth daeth y Band of Hope yn sefydliad pur gyffredin ym mywyd plant yr ysgolion hyn. Bu diwygiadau a mudiadau fel y Mudiad Dirwest yn hwb aruthrol i greu bwrlwm ac afiaith yng nghrwsâd yr ysgolion.

Erbyn canol y ganrif roedd yr ysgol Sul yng Nghymru wedi hen ennill ei phlwyf, a'r unig lygedyn o oleuni a welodd comisiynwyr Adroddiad Addysg 1847 (Y Llyfrau Gleision) oedd cyfraniad yr ysgol Sul i addysgu'r genedl. Roedd y tri chomisiynydd yn unfryd o'u plaid ac yn gadarnhaol ynghylch eu rhagoriaethau. Ym marn Vaughan Johnson, comisiynydd ysgolion gogledd Cymru, roeddent yn brif gyfrwng gwareiddiad y rhan honno o'r wlad, ac yn ddigon anfoddog cydnabu R. R. W. Lingen, oedd yn gyfrifol am siroedd Caerfyrddin, Morgannwg a Phenfro, eu bod yn 'real fields of mental activity'. Dengys ystadegau Comisiynwyr y Llyfrau Gleision yn 1847 fod 1,657 o ysgolion dyddiol yn bodoli, a 2,664 o ysgolion Sul; roedd niferoedd y disgyblion yn yr ysgolion dyddiol yn 78,827 tra oedd 255,595 yn mynychu'r ysgolion Sul, gan gofio bod plant ac oedolion yn eu plith. Er i'r comisiynwyr ganmol ymdrechion yr ysgolion Sul, eto i gyd nid oeddynt yn berthnasol yn ôl y cyfarwyddiadau a roddwyd iddynt, sef ymchwilio i allu'r dosbarth gweithiol i feistroli a defnyddio'r iaith Saesneg. Cadarnhawyd hyn bedair blynedd yn ddiweddarach gan ystadegau'r Cyfrifiad Crefyddol (1851) pan ddatgelwyd bod 2,771 o ysgolion Sul drwy'r wlad yn darparu ar gyfer 269,078 o ddisgyblion.

## **Y Chwyldro Diwydiannol**

Teimlodd Cymru, yn ogystal â Lloegr, rym y Chwyldro Diwydiannol, yn enwedig yng nghymoedd de Cymru ac ardal y chwareli yn y gogledd-orllewin, ac ni ellir anwybyddu cyfraniad yr ysgol Sul yn y cefndir diwydiannol hwn yn ogystal â'i dylanwad yn y broydd gwledig. Un o'r problemau a wynebai'r ardaloedd oedd cynnwys ysgolion i addysgu'r cymunedau diwydiannol, ac yn nifyg system wladol o ysgolion aethpwyd i'r afael â'r broblem hon nid yn unig gan Gymdeithasau Gwirfoddol ond hefyd gan gyflogwyr a wirfoddolai i godi ysgolion gwaith ar gyfer plant eu gweithwyr. Daeth yr ysgolion dyddiol hyn yn ganolfannau cyffredin yn y gweithfeydd, ond roedd gan Gymru system hynod lwyddiannus o addysg ran amser yn ei hysgolion Sul, nid yn unig yng nghefn gwlad ond hefyd ymysg y dosbarth gweithiol yn yr ardaloedd diwydiannol. Rhaid cofio bod y cyflogwyr a'r cwmnïau yn awyddus iawn i gefnogi a hybu gwaith yr ysgolion Sul enwadol yn ogystal â'r ysgolion dyddiol. Ym Merthyr Tudful, gyda phoblogaeth o 34,997 yn 1841, roedd 2,301 o blant yn mynychu'r ysgolion dyddiol ac roedd 4,290 o blant dan 15 oed yn mynychu'r ysgolion Sul, er bod 41 o ysgolion dyddiol o'i gymharu â 36 o ysgolion Sul.

Mae'n rhaid edrych yn fanylach ar yr ardaloedd diwydiannol hyn er mwyn dadansoddi gwir gyfraniad yr ysgol Sul yn eu plith. Fel y cynyddai'r diwydiannau yng nghymoedd y de, roedd y gweithwyr yn cael eu denu nid yn unig o wahanol ardaloedd o Gymru ond hefyd o Loegr ac Iwerddon, yn enwedig yn ystod y newyn mawr rhwng 1817 ac 1846. Roedd lleoliad y diwydiannau'n golygu bod raid i'r cyflogwyr baratoi popeth ar gyfer eu gweithwyr – o siop i ysgol. Mewn amgylchfyd o'r fath roedd y cyflogwyr yn barod i dderbyn cyfraniad yr ysgolion Sul â breichiau agored. Mewn rhyw ffordd ymdebygai'r ysgolion Sul yn y broydd diwydiannol i'r ysgolion Sul yn Lloegr ar y dechrau, gan gofio mai diffyg disgyblaeth a pharch a anogodd Robert Raikes i agor ei ysgolion yng Nghaerloyw. Credai y byddai dylanwad yr ysgolion hynny, gyda'u pwyslais ar ddisgyblaeth a threfn yn ogystal â'r gogwydd crefyddol, yn sicr o fod o fudd i gymdeithas. Onid dyna paham y gwahoddwyd Raikes gan Robert Crawshay i sefydlu ysgol Sul yn Georgetown, Merthyr Tudful? Llwyddodd yr ysgol Sul yn yr ardaloedd diwydiannol i gynnwys y ddwy elfen, sef y elfen foesol-ddisgyblaethol ac elfen grefyddol.

Yng ngweithfeydd dur y Rhymni roedd cymhelliad cryf i bob enwad gynnal ysgolion Sul, a dyna a wnaethpwyd: roedd tair gan y Bedyddwyr, pedair gan yr Annibynwyr, dwy'n perthyn i'r Wesleaid ac un bob un gan y Methodistiaid Calfniaidd a'r Eglwys Sefydledig. Yn Adroddiad Addysg 1847 (Rhannau 1 a 2) roedd niferoedd y plant dan 15 oed a fynychai ysgolion Sul yr Ymneilltuwyr yn dipyn uwch na niferoedd y rhai a fynychai ysgolion Sul yr Eglwys Sefydledig; roedd 1,882 yn mynychu ysgolion Sul yr Eglwys a 9,792 yn mynychu ysgolion Sul yr Ymneilltuwyr. Ym mro'r chwareli, ym Methesda a Llanllechid, oedd â phoblogaeth o 6,347 yn 1901, roedd nifer aelodau capeli'r fro yn 2,844, gyda 1,543 o wrandawyr, a 3,117 o bob oed yn mynychu'r ysgolion Sul. Yn ninas Bangor a'i heglwys gadeiriol, gyda phoblogaeth o 11,264 o bobl, roedd 7,617 (yn cynnwys gwrandawyr) yn mynychu'r capeli Ymneilltuol a 5,146 yn mynychu'r ysgolion Sul.

Nid yn unig yr oedd yr ysgolion hyn yn dysgu crefydd ond hefyd y gallu i ddarllen, a gwnaed hyn drwy gyfrwng y Gymraeg, ac eithrio yn ardaloedd Dowlais, Merthyr Tudful a Chwmafon. Elfen arall i ryfeddu ati yw faint o amser a dreulid yn yr ysgol Sul, er enghraifft chwe awr yng ngwaith dur y Rhymni ymhlith y Bedyddwyr, a rhwng dwy a phedair awr yn ysgolion Sul yr enwadau eraill. Rhoddodd y broydd diwydiannol yn ogystal â chefn gwlad barch a bri i'r ysgolion Sul ac roeddent yn fwy poblogaidd na'r ysgolion dyddiol.

### **Cyfraniad yr ysgol Sul i fyd addysg**

Ni ellir ysgaru cyfraniad yr ysgol Sul oddi wrth ymgyrchoedd eraill addysgol ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn hyn roedd gan yr ysgol Sul gyfraniad uniongyrchol a phellgyrhaeddol tuag at addysg a bywyd y werin Gymraeg. Y rhyfeddod yw mor ddibris y mae'r rhan fwyaf o haneswyr wedi bod wrth drafod crwsâd yr ysgol Sul i ddiwyllio bywyd y Cymry ar hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a hyd at ganol yr ugeinfed ganrif.

Conglfaen rhaglen y Llywodraeth Ryddfrydol a etholwyd ddwy flynedd yn gynharach oedd Mesur Addysg 1870. O Gyfrifiad Crefyddol 1851 ymlaen roedd Ymneilltuwyr Cymru wedi dod yn llais grymus yn y wlad a daeth addysg yn erfyn pwysig yn eu cenhadaeth. Wrth i Ymneilltuaeth ddod yn rym ymhlith y bobl, daethant yn ymwybodol o welliannau materol yn ogystal â dylanwadau ysbrydol, a gweld mai addysg oedd y ffordd orau tuag at gynydd a datblygiad cymdeithasol. Erbyn hyn roedd y rhan fwyaf o'r arweinwyr Ymneilltuol wedi cefnu ar y safiad o wrthod ymyrraeth y Llywodraeth i gyflwyno addysg. Ond proses araf oedd hon; yng ngeiriau *Baner Cymru*: 'Pa beth bynnag a wna y llywodraeth mewn ffordd gynhorthwy, dylai wneyd hynny bob amser mewn dull darostyngedig i'r egwyddor wirfoddol, fel ag i beidio rhoi dim rhwystr neu ddigalondid i'r ymdrechion a'r trefniadau lleol a phersonol pa rai ydynt yr anghreiffiau a'r profion mwyaf gwerthfawr o grefydd ymarferol yn mhlith cymmydogion.' (Mawrth 1857)

Pan basiwyd Deddf Addysg W. E. Forster yn 1870, cafwyd siomedigaeth ymhlith y cefnogwyr a'r gwrthwynebwyr. Credai'r gymuned Ymneilltuol ei bod wedi gadael gormod o rym yn nwylo'r Eglwys Sefydledig, ac ym marn yr Eglwys roedd yn gyfle i'r Rhyddfrydwyr danseilio safle'r Eglwys yn y tir. Ond roedd un wedd nad oedd modd ei hanwybyddu ar unrhyw gownt. Roedd argymhellion y ddeddf hon yn cadarnhau'r cysyniad a fodolai o 'England and Wales' ac anwybyddwyd y Gymraeg yn llwyr; dylid cofio bod 71.2% o'r boblogaeth yn 1871 yn gallu siarad yr iaith Gymraeg, gyda chanrannau uchel iawn o Gymry Cymraeg yn sir Aberteifi (95.5%), sir Feirionnydd (94.4%), sir Gaerfyrddin (94.0%), sir Fôn (93.1%) a sir Gaernarfon (92.9%). Yn dilyn adroddiadau'r Llyfrau Gleision (1847), credai'r mwyafrif yng Nghymru y dylai'r Cymry newid eu dulliau a'u hiaith er mwyn iddynt gael mynediad i ddiwylliant eang y Saeson. Atgyfnerthwyd hyn gan arolygwyr yr Ysgolion Bwrdd a ymddangosodd yn dilyn Deddf 1870.

Brodor o Ddolgellau oedd y Parchedig Shadrach Pryce (1833–1914), clerigwr Cymraeg a fu am gyfnod yn ficer Ysbyty Ifan ac a ddaeth yn ddiweddarach yn arolygwr yng nghefn gwlad sir Gaerfyrddin. Credai y byddai tranc yr iaith Gymraeg yn fendith: 'the disuse of Welsh as a spoken language will be a gain to the principality; for the limited area in which it is spoken and the backward condition of Welsh literature, are serious drawbacks to the intellectual and commercial progress of the people.'

Rhwystr ac anfantais ddybryd oedd y Gymraeg. Eto i gyd, doedd gan yr arweinwyr Ymneilltuol yng Nghymru ddim safbwynt pendant ynglŷn â lle a phwysigrwyd yr iaith Gymraeg.

Yn dilyn Deddf Addysg 1870 gwelwyd bod angen diwygio gwaith a threfniadau'r ysgolion Sul, gan roi sylw i drefniadaeth a hyfforddi'r athrawon. Y farn oedd fod llai o addysg grefyddol yn cael ei dysgu yn yr ysgolion dyddiol ac nad oedd y Gymraeg yn cael digon o le yn y cwricwlwm. Disgynnodd y gwaith o ofalu am yr iaith a dysgu egwyddorion crefydd ar yr ysgol Sul. Credai Lewis Edwards, fel llawer o'r un cyfnod, nad oedd goroesiad yr iaith Gymraeg yn rhan o genhadaeth yr Ymneilltuwyr, ac ymddiriedai yng ngallu'r ysgolion Sul i hyfforddi'r plant yn y Gymraeg. Roedd yr Ymneilltuwyr o blaid sefydlu ysgolion dyddiol cwbl seciwlar a Seisnig i raddau helaeth, gan fod y 'Welsh Not' neu'r 'Welsh Note' yr un mor gyffredin yn yr ysgolion Brutanaidd ag yr oedd yn yr ysgolion Cenedlaethol, Anglicanaidd. Mewn gwirionedd, adlewyrchai hyn eu ffydd yng ngallu'r ysgol Sul i roi arweiniad ysbrydol a Chymreig i'r plant.

Mae'n amlwg nad oedd yr arweinwyr crefyddol wedi gweld gwir berygl Deddf Addysg 1870, er mai deddf i Loegr oedd hon, heb roi unrhyw ystyriaeth i Gymru na'r iaith Gymraeg. Credent yn glir y gellid diogelu'r Gymraeg yn nosbarthiadau'r ysgol Sul, ac felly roeddent yn ddigon bodlon i'r ysgolion Sul weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i'r ysgolion dyddiol ddysgu drwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Canlyniad hyn oedd i'r ysgol Sul a'r capel ddod yn ganolfannau diwylliannol Cymraeg ar draul bod yn ganolfannau ffydd, ac yn ddiweddarach talwyd pris mawr am hyn. Yn hytrach nag ymosod ar Seisnigrwydd Deddf 1870, yr hyn a gafwyd oedd ymgais i gryfhau Cymreictod yr ysgol a'r capel. A bod yn deg, roedd hi'n anodd iawn i'r arweinwyr sylweddoli beth fyddai grym y wladwriaeth seciwlar Seisnig. Gellir dweud bod yr ysgol Sul wedi bod yn rhwystr ac yn fagl i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgolion dyddiol.

Er i'r Methodistiaid Calfinaidd roi lle amlwg i'r ysgol Sul yn ei threfniadaeth ac i'r enwadau Ymneilltuol eraill ddilyn yr un patrwm, ychydig iawn oedd eu cyfraniad tuag at addysg seciwlar yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er enghraifft, yn 1835 roedd 1,355 o ysgolion ledled Cymru ond naw deg yn unig oedd yn ysgolion Ymneilltuol. Safai rhai o'r enwadau Ymneilltuol, yr Annibynwyr yn bennaf, yn erbyn gafael gadarn Eglwys Loegr ar ragorfreintiau addysgol. Credai Hugh Owen, brodor o Fôn oedd yn glerc i Gomisiynwyr Deddf y Tlodion a diacon yng nghapel Claremont, Llundain, mai'r unig ffordd i ddiwallu anghenion addysgol Cymru oedd drwy dderbyn grantiau'r Llywodraeth a chodi ysgolion ar batrwm y Gymdeithas Frutanaidd. Cythruddwyd y

gwirfoddolwyr gan ei safbwynt, a mynnent fod pob addysg a chrefydd yn wirfoddol ac na ddylai'r wladwriaeth ymyrryd ynddynt. Rhaid oedd wrth y grantiau a chodi ysgolion drwy ymdrechion gwirfoddol ond hir fu'r daith, a phylodd y weledigaeth gan fod tlodi yn gymaint llyffethair.

## Ymlaen i'r ganrif newydd

Bu dathlu canmlwyddiant sefydlu'r ysgol Sul yn 1885 yn gyfle i'w hailorseddu a thynnu sylw at ei chrwsâd. Un syniad a drafodwyd yn ystod y dathliadau oedd creu undeb ysgolion Sul cydenwadol i Gymru gyfan, ond ofer fu'r trafodaethau. Gweithio fel enwadau ar wahân fu eu hanes a ffurfio undebau ysgolion Sul enwadol, fel y gwnaeth y Methodistiaid Calfinaidd yn Lerpwl yn 1886 a'r Bedyddwyr yn 1888. Aeth yr Annibynwyr ati i godi Pwyllgor yr Ysgol Sul yn 1886 a'r Wesleaid i drefnu meysydd llafur ar raglen waith y Gymanfa a'r eglwysi Saesneg yng Nghymru yn dilyn rhaglenni gwaith Lloegr. Bu hyn yn fodd o drefnu meysydd llafur a'u graddoli yn ôl oedran y disgyblion; cynhelid arholiadau blynyddol a pharatowyd llyfrau darllen addas i'r plant ac esboniadau ar wahanol lyfrau'r Beibl i'r oedolion.

Ond roedd pryder arall yn wynebu'r ysgolion Sul. Bu trafodaeth ynghylch y dirywiad a fu yn ei hanes, a hynny yn sgil esgeuluso diwinyddiaeth y Beibl a'r dull o holwyddori. Daeth yr esboniad i fri, ac roedd cylchrediad y rhain yn syfrdanol. Yn ôl *Y Drysorfa* (1896), gwerthwyd 30,000 o esboniadau T. Charles Edwards ar yr Hebreaid a hynny mewn ychydig ddyddiau, a'r un nifer o esboniad dwy gyfrol Cynddylan Jones ar Efengyl Ioan. Gan fod niferoedd ysgolion Sul y Methodistiaid Calfinaidd yn uwch o dipyn na'r enwadau eraill, ni allai cylchrediad eu hesboniadau hwy gyrraedd yr un gwastad – 7,000 o gopiau oedd gwerthiant esboniad David Adams ar y Galatiaid ymhlith yr Annibynwyr. Bu dyfodiad yr esboniadau yn ffordd o ysgaru trafod testun y Beibl oddi wrth yr elfen o drafod diwinyddiaeth y Beibl, ac esgorwyd ar ddwy ddisgyblaeth ar wahân. Yr hyn oedd yn digwydd oedd fod y disgyblion yn canolbwyntio ar un o lyfrau'r Beibl heb roi sylw i rediad a datblygiad athrawiaeth Gristnogol. Yn ôl pob tebyg, bu rhagfarn gref yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn erbyn dysgu 'corff' o ddiwinyddiaeth, a daeth galw am ailorseddu'r catecism er mwyn creu fframwaith athrawiaethol i'r disgyblion. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd sawl ymdrech i baratoi catecismau i blant, fel y gwnaeth A. Owen Evans ar gyfer plant yr Eglwys yng Nghymru, a chyhoeddwyd *Camrau'r Iesu: holwyddoreg ar hanes Iesu Grist ar gynllun newydd ac Eiddo'r Plant: sef catecism i blant, ar destynau mawrion* i blant yr Annibynwyr. Bu paratoi cyffelyb ar gyfer yr oedolion hefyd, er enghraifft, *Cysondeb y Ffydd*, pedair cyfrol o eiddo Cynddylan Jones.

Gwendid arall yr esboniadau oedd eu bod yn briwsioni'r Beibl gan symud o air i air ac o adnod i adnod heb roi sylw i'r adran yn ei chyfanrwydd. Roedd rhediad y stori wedi'i cholli mewn niwl o drafod geiriau a chymalau, ac esgorai hyn ar drafodaethau di-fudd a chyfeiliornus. Llwyddodd yr esboniadau i wneud y Beibl yn llyfr cymhleth ac anodd, yn llyfr pell heb ryw lawer o gysylltiad â digwyddiadau'r cyfnod a phroblemau'r dydd. A chyn cloi'r adran hon, mae'n werth sylwi pa adrannau o'r Beibl a esboniwyd. Rhoddwyd bri mawr ar lyfrau'r Hen Destament i'r plant a'r Testament Newydd i'r oedolion. Rhwng 1890 ac 1906 dim ond un adran o'r Hen Destament, sef Salmau 1–51, fu'n rhan o faes llafur i oedolion y Methodistiaid Calfinaidd a bu'r Annibynwyr yn protestio bod yr oedran rhwng 12 a 16 oed wedi'i gyfyngu i faes yr Hen Destament.

Gyda'r plant, penderfynwyd dilyn y Wers Ryngwladwriaethol a sefydlwyd yn 1872 gan yr American Sunday School Union gyda chydysyniad y British Sunday School Union. Mewn cyfarfod yn y Rhyl ar 26 Hydref 1880 penderfynwyd cael y 'wers ryngwladwriaethol' yn Gymraeg a ffurfio Undeb yr Ysgolion Sabbothol Cymreig.

Ar droad y ganrif, yn ôl yr ystadegau moel, roedd yr ysgol Sul yn dal ei thir, gyda 571,414 o ddisgyblion yn mynychu a 56,497 o athrawon ymhlith y pedwar enwad Ymneilltuol, a 168,706 o ddisgyblion a 13,457 o athrawon yn gwasanaethu'r Eglwys Sefydledig. Mewn gair, roedd pedwar o bob deg o'r boblogaeth dros dair oed yn

mynychu'r ysgolion Sul ledled Cymru. Amrywiai'r cyfartaledd o sir i sir, gyda 67% yng Ngheredigion a 27% ym Maesyfed.

Gŵr y bu ei ddylanwad yn enfawr ar grwsâd yr ysgol Sul yn y cyfnod hwn oedd Thomas Gee. Un o amcanion bywyd Thomas Gee (1815–1898), mab yr argraffydd Thomas Gee a'i wraig, Mary Foulkes, oedd hyrwyddo'r achos Cristnogol, ac un ffordd o wneud hyn oedd cefnogi'r ysgol Sul. Yn 1906 ar gais ei ferch hynaf, Susannah Mary Gee, dechreuwyd cyflwyno Medalau Gee i ffyddloniaid hynaf y mudiad, a pharheir i wneud hyn hyd heddiw.

Yn 1917, o weld bod aelodaeth yr ysgol Sul yn lleihau a'i dylanwad yn dechrau pylu, penderfynodd y Methodistiaid Calфинаidd alw'r enwadau ynghyd i drafod mater cydweithio, a dyna pryd y daeth Pwyllgor Cydenwadol yr Ysgol Sul i fodolaeth. Wynebodd aelodau'r Pwyllgor, dan gadeiryddiaeth y Prifathro Thomas Rees, yr her heb unrhyw betruster. Rhoddwyd sylw arbennig i'r oedran rhwng 12 ac 21 oed gan ganolbwyntio ar dair elfen, sef hanes, dysgeidiaeth a diwinyddiaeth (a) y proffwydi, (b) Iesu Grist, (c) yr Eglwys Apostolaidd. Paratôdd y Pwyllgor Cydenwadol ddau lyfr, *Cam Cyntaf ar Ail Gam*, i ddysgu darllen; trefnwyd i argraffu can mil o'r naill ar llall ar gost o £2,300, a chyhoeddwyd y ddwy gyfrol yn 1922. Yn ychwanegol at hyn, awgrymodd y Pwyllgor y dylid mynd ati i gyhoeddi cylchgrawn cydenwadol, sefydlu cyrsiau hyfforddi athrawon, a chynnal ysgol haf bob blwyddyn. Ym Medi 1921 ymddangosodd y rhifyn cyntaf o'r *Cyfarwyddwr*, y cylchgrawn cydenwadol, a chynhaliwyd yr ysgol haf gyntaf ym mis Awst 1928 yng Ngholeg Harlech. Yn 1920 cynhaliwyd cyrsiau i athrawon yn Llanwrtyd ac ym Mangor. Ond er mor weithgar a phellgyrhaeddol yr oedd gweledigaeth y Pwyllgor, dal i gollu tir yr oedd yr ysgol Sul. Roedd y dirywiad yn ei amlygu ei hun yng nghylchrediad cylchgronau'r mudiad. Plentyn Undeb yr Annibynwyr oedd *Tywysydd y Plant* er 1909 a'i gylchrediad yn 1913 oddeutu 11,500 y mis; erbyn 1930 roedd yn 7,500 ac erbyn 1938 yn 5,300. Yn 1933 unwyd *Tywysydd y Plant* â *Dysgedydd y Plant* o dan olygyddiaeth D. Morgan Davies, ac am rai blynyddoedd llwyddodd i gadw'i ben uwchben y dŵr.

Yn dilyn blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd roedd gwaith yr ysgol Sul yn mynd yn fwy llafurus, a gwelwyd ffenomen newydd yn ymddangos, sef yr ysgaru oedd yn digwydd rhwng gwaith a bywyd yr eglwys. Esgorwyd ar blant na wyddai beth oedd oedfa ac oedolion na wyddai beth oedd ysgol Sul. Nodweddd arall oedd y gagendor a agorodd rhwng addysg grefyddol yr ysgolion bob dydd ar hyn oedd yn digwydd yn yr ysgol Sul. Roedd yr ysgolion Sul yn amharod i ddysgu oddi wrth ddulliau dysgu'r ysgolion dyddiol yn ogystal ag ymateb i'r galw am lyfrau addas i'r plant. Un o'r rhwystrau pennaf oedd cael athrawon â sgiliau dysgu o safon, gan gofio bod pedair neu bump o ysgolion Sul yn cael eu cynnal hyd yn oed mewn pentrefi bychain. Un peth oedd dysgu'r catecism ar dafod-leferydd ond peth arall oedd dysgu dychmygus a dyfeisgar, a dyma brif wendid yr ysgolion Sul mewn gwirionedd. I geisio ateb y gofynion hyn, cyhoeddodd Jennie Thomas (1898–1979), cyd-awdur *Llyfr Mawr y Plant* a Threfnydd Iaith ysgolion cynradd sir Gaernarfon, ei chyfrol *O Sul i Sul* ac argraffwyd 15,000 o gopiau. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cydenwadol 'Gyfes y Grisïau' ac argraffwyd 210,000 ohonynt. Daliwyd ati i gynnal yr ysgol haf bob blwyddyn a gwelwyd arbroti pellach dan nawdd y Pwyllgor Cydenwadol, er enghraifft y 'Cwis Ysgrythurol', a drefnid gan Alun Creunant Davies, a chyfres o ffilmiau gan y Parchedig Gareth Maelor Jones. Ond wrth weld y cylchgronau'n edwino cododd cri am gylchgrawn newydd, yn arbennig ar gyfer plant. Yn 1966 rhoddwyd y gorau i ddefnyddio enwau'r hen gylchgronau ac ymddangosodd cylchgrawn newydd dan yr enw *Antur*. Ar y dechrau roedd ei gylchrediad yn 14,800, ond ymhen chwe blynedd roedd wedi haneru. Daeth i ben ym mis Mehefin 1992 pan gollwyd nawdd gan y Cyngor Llyfrau ar gylchrediad yr adeg honno oddeutu pedair mil.

Yn 1966 daeth y Pwyllgor Cydenwadol i ben, a chyda chefnogaeth yr enwadau penderfynwyd ei ddatblygu'n ymddiriedolaeth. Felly, daeth y Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol i fodolaeth ar y cyntaf o Orffennaf y flwyddyn honno.

Mae gweddill y gyfrol hon yn nwylo'r rhai fu'n rhan o weithgarwch y Cyngor dros y blynyddoedd. Fe gawn nhw ddweud yr hanes. Ond cyn cloi'r bennod hon maen werth pwysu a mesur dylanwad yr ysgol Sul.

## Dylanwad yr ysgol Sul

O dir a daear Cymru y tarddodd ac y datblygodd yr ysgol Sul, a dyna roddodd yr egni iddi ffynnu a pharhau'n rym mor ddylanwadol am gynifer o flynyddoedd. O blith y werin dlawd y cododd arweinwyr ac athrawon yr ysgolion hyn a chanolwyd eu holl ymdrechion ar lawr dosbarth sawl Saron, Seion a Bethel; yma y bu iddyn nhw gyfrannu o'u harian prin a rhoi o'u gorau. Trwy amryfal weithgareddau'r ysgolion Sul hyfforddwyd unigolion i ymgymryd â dyletswyddau a chyfrannu at beirianwaith cymuned gyfan. Yn araf, datblygodd cymdeithas wâr a pharchus, a chanddi weledigaeth glir, cymdeithas a welai anghyfiawnder a throseddu yn llyffethair i dwf gwareiddiad. O blith cymdeithas fel hon y cododd arweinwyr a ddaeth yn eu tro yn feddygon, yn dwrneiod, athrawon a gweinidogion, yn ogystal â sefydlwyr mân fusnesau yn y cymunedau. Yng nghymoedd diwydiannol de Cymru llwyddodd yr ysgolion Sul i atal rhwygiadau rhwng gwerthoedd y dref ddiwydiannol a thraddodiadau cefn gwlad. Gyda phoblogaeth newydd, ddigyfeiriad a digyswllt, gallai anwybodaeth ac anobaith dreiddio a gwanychu'r gwerthoedd traddodiadol. Ond ni ddigwyddodd hyn yn y cymoedd diwydiannol gan fod y teuluoedd wedi dod â'u traddodiadau a'u crefydd gyda nhw, a bu hyn o gymorth i asio a chyfannu cymdeithas.

Rhoddwyd bri ar addysg a diwylliant, a gwnaed y Gymraeg nid yn unig yn iaith carreg yr aelwyd ond hefyd yn iaith dysgu a hyfforddi, ymryson a dadlau, pwyllgora a threfniadaeth. Yn wyneb Seisnigrwydd haen uchaf y gymdeithas ac offeiriaid yr Eglwys Sefydledig i raddau helaeth, nid gormodiaith yw honni mai'r ysgol Sul a achubodd y Gymraeg a rhoi hyder a llwyfan i'w defnyddio mewn amryfal feysydd. Heb os, hyd at ddegawdau cynnar yr ugeinfed ganrif roedd yr ysgol Sul yn gyfrwng addysgol pwerus ac yn cyfrannu addysg Gymraeg oedd yn gwbl aneffeithiol yn yr ysgolion Cenedlaethol a Brutanaidd fel ei gilydd. Yng ngoleuni hyn rhaid cytuno â geiriau Syr O. M. Edwards, a ddyfynnwyd ar ddechrau'r bennod hon – geiriau sy'n ategu'r hyn a ddywedwyd ddeng mlynedd a thrigain cyn hynny gan Gomisiynwyr y Llyfrau Gleision, a roddodd gymaint o ganmoliaeth i ddygnwch a chrwsâd yr ysgolion Sul mewn dyddiau anodd a chwyldroadol.

Ysgolion i'r teulu cyfan oedd y rhain, heb dâl mynediad na ffioedd dysgu, ac a roddodd gyfle i'r werin dlawd ddysgu drwy gyfrwng eu mamiaith. Dyrchafodd yr ysgol Sul y dyn cyffredin drwy roi urddas a statws iddo i allu ymgymryd â swyddi yn nhrefniadaeth y mudiad a fyddai, yn ei dro, yn ei baratoi ar gyfer cymuned ehangach. Mewn gair, rhoddodd yr ysgol Sul y doniau a'r hyder i Gymry i drefnu eu gweithgareddau eu hunain. Mewn oes lle roedd pwyslais ar ddiwinyddiaeth y tyfodd yr ysgol Sul, a gwrtaith Efengyliaeth gynnes fu'n gynhaliaeth iddi. Cyfyng oedd y cwricwlwm: dysgu'r wyddor, sillafu a dysgu'r sgil o ddarllen, a hynny er mwyn darllen y Beibl gan ddechrau â'r Testament Newydd a symud ymlaen i'r Hen Destament. Eto i gyd, drwy ddysgu darllen roedd yn agor drws i amryfal feysydd eraill. Amlygwyd yr hyder hwn dro ar ôl tro yn y pulpud, yn niwylliant yr eisteddfod ac mewn sawl areithfa ym mro'r chwareli a'r pyllau glo lle y dyrchafwyd y gweithiwr cyffredin. Rhoddodd yr ysgolion hyn, a gynhelid mewn amrywiaeth o leoedd – mewn ysgubor ac ar yr aelwyd, er enghraifft – fframwaith hyblyg ac ystwyth lle y datblygai'r unigolion a dod yn arweinyddion yn eu cymunedau.

Sylfaen gweledigaeth Thomas Charles fel eraill o'i gyfoeswyr oedd fod y Beibl yn cynnwys y cyfan oedd yn angenrheidiol ar gyfer achubiaeth, a chyfunodd ddwy elfen, yr addysgol a'r crefyddol, i greu fframwaith gadarn ar gyfer ei ysgolion. Ei sylfaen ddiwinyddol oedd Calfiniaeth Gymedrol gyda'r pwyslais ar sofraniaeth Duw, cwmp dyn drwy bechod, a gras achubol Duw yn Iesu Grist yn ymaflyd yn yr unigolyn. Drwy'r Beibl a'r cynnyrch atodol, y nod oedd hyfforddi'r bobl i ddarllen eu Beiblau tu mewn i ffiniau diwinyddol penodol.



O'r dechrau rhoddwyd bri ar ddysgu ar y cof, ond roedd Thomas Charles yn bendant: 'Ymdrechwch i gwrteithio y dëall yn fwy na llwytho y cof', ac eto, 'ar ôl i blentyn fyned unwaith trwy y catechism, byddai yn burion ceisio ganddo, wrth fyned drosto yr eilwaith, roddi ateb i bob gofyniad yn ei eiriau ei hun yr hyn a ellir wneyd drwy amrywio y gofyniad'. Ond ymddangosodd bwgan yr arholiadau, a hynny am y tro cyntaf yng Nghymanfa Ysgolion Sul Môn yn 1875, ac erbyn 1880 roedd arholi'n gyffredin drwy holl gyfundeb y Methodistiaid. Ymhlith y Methodistiaid Calfniaidd yn 1893 roedd nifer yr ymgeiswyr yn Henaduriaeth Arfon yn unig yn 1,104 ac yn sir Aberteifi roedd yn agos i fil o ymgeiswyr yn 1908. Bu cryn ddirywiad yn y niferoedd ar ôl y Rhyfel Mawr, pan ymosodwyd ar y gyfundrefn arholiadau ym maes addysg grefyddol. Ond yn dilyn ysbaid o gyfnod hysb daeth yr arholiadau'n fwy cyffredin wrth i'r ugeinfed ganrif fynd rhagddi.

Hyfforddai Charles ei athrawon i fod yn genhadon yn y broydd, nid yn unig i addysgu ond hefyd i greu gwareiddiad gwâr ar sail moesau ac arferion cymdeithasol aruchel. Bu cyfraniad yr ysgol Sul yn allweddol i fagu a meithrin cymeriadau cadarn, annibynnol ac urddasol. Yn raddol, tyfodd cenedl y Cymry yn genedl ddiwylliedig, a'r diwylliant hwnnw'n troi o gwmpas y capeli oedd wedi datblygu'n ganolfannau ysbrydol, cymdeithasol ac addysgol. Ond gyda threigl y blynyddoedd bu raid i Ymneilltuaeth dalu'n ddrud am y *plethora* hwn oherwydd daeth yr eilbeth yn bwysicach na phriod waith yr eglwys. Rhoddwyd bri ar y dylanwadau allanol a daeth arholiadau a chystadlu yn rhan o gynhyrsgaeth yr ysgolion Sul. Mae'r *Dysgedydd* yn cwyno nad oedd modd arwain aelodau'r eglwysi i ymddiddori 'yn y pethau ysbrydol' ar ôl i'r eisteddfodau ymddangos: 'pa ddifyrrwch bynnag sydd yn oddefol ac yn ddiniwed, nid i'r eglwys y perthyn ei ddarpar'. Fel y gwelwyd, collwyd gafael ar yr elfen ddiwinyddol a dechreuwyd astudio'r Beibl fesul llyfr yn hytrach nag fel cyfrwng athrawiaethol, a daeth yn ei dro yn gyfrol dameidiog, ddigyswllt.

Mewn dyddiau lle mae'r Gymraeg yn colli ei thir ac egwyddorion Cristnogaeth yn gwegian ac yn dadfeilio mewn sawl bro, beth sydd gennym i'w gynnig heddiw? Gwelodd yr arloeswyr cynnar eu cyfle a gweithredu.

*Huw John Hughes*